Beibl i Blant

yn cyflwyno

Pedr a Pŵer Gweddi



Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Janie Forest
Alastair Paterson
addaswyd gan: Ruth Klassen

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2020 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Teithiodd yr apostol Pedr ar hyd y wlad yn dweud wrth bobl am Iesu. Un diwrnod, mewn tref o'r enw Lyda, dyma fe'n gweld dyn oedd wedi methu codi o'i wely ers wyth mlynedd.

“Mae Iesu y Meseia am dy iacháu,” meddai Pedr. “Cod ar dy draed a phlyga dy fatras.” Cododd y dyn ar unwaith. Dyma’r bobl welodd hyn yn troi at yr Arglwydd.

Heb fod yn bell i
ffwrdd, yn nhref Jopa,
roedd pobl yn drist.
Roedd gwraig o'r enw
Dorcas newydd farw.

Roedd hi'n credu yn Iesu. Dyma nhw'n paratoi ei chorff er mwyn ei chladdu, a'i rhoi i orwedd mewn stafell i fyny'r grisiau.

Ond clywodd ffrindiau Dorcas fod Pedr yn aros yn y cylch. Dyma nhw'n gofyn i Pedr ddod i Jopa ar unwaith.

Pan ddaeth i'r ystafell, dangosodd y gwragedd gweddwon y mentyll a'r dillad eraill roedd Dorcas wedi eu gwneud iddyn nhw. Roedd pawb yn eu dagrau.

Dyma Pedr yn anfon pawb allan. Aeth ar ei liniau a gweddïo. Yna trodd at gorff y wraig a dweud, "Dorcas, cod ar dy draed." Agorodd ei llygaid! Pan welodd hi Pedr, eisteddodd i fyny.

Gafaelodd Pedr yn ei llaw a'i helpu i sefyll. Wedyn galwodd Pedr y credinwyr a'r gwragedd gweddwon yn ôl i mewn a dangos iddyn nhw fod Dorcas yn fyw. Aeth y newyddion ar led drwy Jopa, a daeth llawer iawn o bobl i gredu yn Iesu.

Arhosodd Pedr yn Jopa am gryn amser, mewn tŷ wrth ymyl lan y môr. Un diwrnod aeth i fyny i ben y tô i weddio. Petai e wedi edrych dros waliau'r ddinas, byddai wedi gweld tri dyn oedd wedi teithio yno i'w weld.

Roedd y dynion yn weision i filwr Rhufeinig o'r enw Cornelius, dyn oedd yn addoli Duw.



Roedd Cornelius wedi anfon ei weision at Pedr am fod angel wedi siarad hefo fo mewn gweledigaeth.

Wrth i Pedr weddïo ar ben y tô cafodd weledigaeth. Gwelodd rhywbeth tebyg i gynfas fawr yn cael ei gollwng i lawr i'r ddaear.

Roedd pob math o anifeiliaid ac adar arni. Roedd Pedr yn gallu gweld bod nhw i gyd yn 'aflan', a doedd Iddewon crefyddol ddim yn cael eu bwyta. Yn sydyn meddai llais, "Lladd beth wyt ti eisiau, a'i fwyta."



“Na, Arglwydd!” meddai Pedr wrth Dduw. “Dw i erioed wedi bwyta dim byd sy’n cael ei gyfri’n aflan neu’n anghywir.” Dywedodd y llais wrtho eto, “Os ydy Duw wedi dweud fod rhywbeth yn iawn i’w fwyta, paid ti â dweud fel arall.” Digwyddodd hyn dair gwaith. Yna’n sydyn aeth y gynfas yn ôl i fyny i’r awyr.

Roedd Pedr yn methu'n lân â deall
beth oedd ystyr y weledigaeth.
Wrth iddo feddwl, dywedodd
Duw wrtho fod tri dyn
yn chwilio amdano.
Roedd i fynd
gyda nhw.



Pan eglurodd y tri dyn wrth Pedr fod angel wedi dweud wrth Cornelius am anfon amdano, gwyddai Pedr fod Duw yn ei arwain. Y diwrnod wedyn aeth gyda chwe ffrind i dŷ Cornelius.

Wrth iddo deithio, a oedd Pedr wedi dechrau deall bod Duw yn caru pawb, hyd yn oed pobl oedd ddim yn Iddewon – bod Duw am i bobl o bob cenedl adnabod Iesu fel Achubydd pawb yn y byd? Pan gyrhaeddodd Pedr, syrthiodd Cornelius i lawr o'i flaen fel petai'n ei addoli.

“Saf ar dy draed. Dyn cyffredin ydw i fel ti,” meddai Pedr wrth Cornelius.

Yna dywedodd wrth bawb yn y tŷ, "Dych chi'n gwybod fod ein cyfraith ni ddim yn caniatáu i ni gymysgu gyda phobl o genhedloedd eraill." "Ond mae Duw wedi dangos fod gen i ddim hawl i ystyried unrhyw un yn aflan."

Eglurodd Pedr wrth y bobl yma, pobl o genhedloedd eraill oedd ddim yn Iddewon, fod Iesu yn fab Duw a'i fod wedi marw ar y groes a dod yn ôl yn fyw. Fe yw Achubydd pobl y byd.

Yna dyma'r Ysbryd Glân yn disgyn ar bawb a dechreuon nhw foli Duw. Roedd ffrindiau Iddewig Pedr yn methu credu'r peth. Roedd fel dydd y Pentecost. Ac roedd pobl oedd ddim yn Iddewon hefyd yn derbyn yr Ysbryd Glân! Yna dechreuodd Pedr fedyddio'r credinwyr newydd yn enw Iesu.

Pan aeth Pedr yn ôl i Jerwsalem, cafodd ei feirniadu'n hallt am gymysgu gyda phobl oedd ddim yn Iddewon. Felly dywedodd Pedr wrthyn nhw am y gweledigaethau gafodd e a Cornelius wrth iddyn nhw weddïo. Pan glywon nhw'r hanes, doedd ganddyn nhw ddim byd i'w ddweud. A dyma nhw'n dechrau moli Duw. Roedd e, trwy weddi, wedi dangos i'r eglwys Gristnogol fod Duw yn caru pawb.



Pedr a Pŵer Gweddi

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Actau 9-12

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16